# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 3**

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

**PENNOD 4**

CASGLU A RHEOLI'R DRETH

*Cyfrifo treth*

**40 Pŵer i amrywio cyfnod cyfrifyddu neu ddyddiad ffeilio**

(1) Caiff ACC amrywio—

(a) hyd cyfnod cyfrifyddu;

(b) dyddiad ffeilio ffurflen dreth.

(2) Gwneir amrywiad drwy ddyroddi hysbysiad i'r person y mae'r amrywiad yn gymwys iddo.

(3) Rhaid i'r hysbysiad nodi manylion yr amrywiad.

(4) Caiff ACC ddyroddi hysbysiad o dan yr adran hon naill ai—

(a) ar gais person sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy neu sy'n bwriadu gwneud hynny, neu

(b) ar ei gymhelliad ei hun.

(5) Rhaid i gais i amrywio gael ei gyflwyno mewn ysgrifen.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 40. (See end of Document for details)*

(6) Os yw ACC yn gwrthod cais i amrywio, rhaid iddo ddyroddi hysbysiad am ei benderfyniad i'r person a wnaeth y cais.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 40 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 40 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(n)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 40.